# Pecyn hyfforddi i gefnogi gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)

Mae'r pecyn hyfforddi yn cynnwys deunyddiau i helpu ysgolion i weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh). Cafodd ei ysgrifennu i helpu uwch-reolwyr i hyfforddi athrawon[1] a'u cael i ddeall cyfleoedd a gofynion y FfLlRh.

Mae'r deunyddiau wedi'u trefnu'n bum gweithdy sydd wedi cael eu hysgrifennu i'w cyflwyno fel dilyniant. Fodd bynnag, bydd rhaid i ysgolion benderfynu sut i ddefnyddio'r pecyn hyfforddi ac a oes rhaid cyflwyno pob elfen. Bydd yn cymryd rhwng awr a 90 munud i gwblhau pob gweithdy. Rhwng y gweithdai, ceir tasgau cysylltu posibl a fydd yn cymryd rhwng dwy a thair wythnos i'w cwblhau. Dylid cynnwys yr amser hwn yn yr amserlen addysgu. Yn dilyn Gweithdy 5, mae nifer o dasgau y gellid eu cwblhau i gynhyrchu cynlluniau gweithredu manwl, cynhwysfawr i ysgolion er mwyn blaenoriaethu gofynion pellach.

## Gweithdai

Rhoddir manylion bras pob gweithdy isod.

### Gweithdy 1: Gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)

Y nod yw helpu cyfranogwyr i:

- ddeall y cyd-destun ar gyfer y FfLlRh
- meddwl beth yw ystyr 'llythrennedd' a 'rhifedd'
- dechrau deall strwythur y FfLlRh a'r dilyniant trwyddo
- cydnabod y gofynion a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â gweithredu'r FfLlRh
- dechrau myfyrio ar eu camau nesaf nhw a chamau nesaf yr ysgol.

### Gweithdy 2: Mapio'r cwricwlwm

Y nod yw helpu cyfranogwyr i:

- ddiffinio pam y mae datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn bwysig
- datblygu syniadau ynghylch sut y mae llythrennedd a rhifedd wedi'u cysylltu
- deall yn well strwythur y FfLlRh
- adolygu sut y gellir mapio sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm ysgol
- deall ymresymu rhifyddol yn well
- myfyrio sut i wella addysgu llythrennedd a rhifedd.

[1] Defnyddir y term 'athrawon' trwy gydol y pecyn hwn i gynnwys ymarferwyr o bob cyfnod a cham gan gynnwys cynorthwywyr addysgu a dysgu.

**Gweithdy 3: Cynllunio’r cwricwlwm ar gyfer dilyniant**

Y nod yw helpu cyfranogwyr i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o:

- ystyr 'dilyniant' a 'chyfnerthu' ym maes datblygu sgiliau
- sut y caiff dilyniant y dysgwr ei integreiddio i'r FfLlRh
- y derminoleg a ddefnyddir, a disgwyliadau pynciau a grwpiau blwyddyn
- yr angen am eirfa gyffredin i ddisgrifio'r 'dysgu' a ddefnyddir gyda a chan dysgwyr.

**Gweithdy 4: Olrhain, monitro a chofnodi cynnydd**

Y nod yw helpu cyfranogwyr i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o:

- sut y caiff y FfLlRh ei ddefnyddio fel offeryn asesu
- asesu yn y dosbarth yn erbyn y FfLlRh er mwyn datblygu'r 'camau nesaf'
- sut mae 'cyfnerthu' sgiliau yn edrych a sut y gellir cyflawni hyn
- olrhain cynnydd dysgwyr yn erbyn y FfLlRh a'r systemau olrhain y gellid eu defnyddio
- sut y gellid defnyddio'r FfLlRh i lunio adroddiadau blynyddol
- sut y gallai adroddiad edrych.

**Gweithdy 5: Y camau nesaf**

Y nod yw helpu cyfranogwyr i:

- gyfnerthu ac adeiladu ar eu syniadau a'r materion a drafodwyd mewn gweithdai blaenorol
- ystyried ymhellach ddulliau i ymgorffori'r FfLlRh ar draws yr ysgol
- deall sut y mae'r FfLlRh yn cydweddu â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn
- defnyddio offer hunanwerthuso i weithredu'r FfLlRh ar draws yr ysgol gyfan.

## Nodiadau ar ddefnyddio’r gweithdai

Mae'r gweithdai yn gyfres o sleidiau PowerPoint gyda nodiadau cysylltiedig. Gellir gweld y nodiadau ar y sgrin a thrwy ddewis 'Nodiadau' wrth argraffu. Cânt eu darparu fel dogfen ar wahân hefyd. Fodd bynnag, mae'r nodiadau ar gyfer y cyflwynydd yn hytrach na'r cyfranogwyr ac maent yn rhoi'r manylion y tu ôl i rai o'r sleidiau a methodoleg bosibl ar gyfer cwblhau'r tasgau perthnasol. Mae'r gweithdai yn datblygu dealltwriaeth cyfranogwyr o lefel sylfaen. Felly, gall ysgolion benderfynu hepgor neu addasu rhai o'r sleidiau i sicrhau bod pob gweithdy yn bwrpasol ac yn ateb anghenion eu hathrawon a'u dysgwyr.

O fewn pob gweithdy mae nifer o dasgau i bennu dealltwriaeth flaenorol cyfranogwyr o ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ac adeiladu ar hyn. Mae'r tasgau yn amrywio o ran tarddiad a natur. Fodd bynnag, maent i gyd yn rhan annatod o ddatblygu dealltwriaeth athrawon o sut i gymhwyso'r FfLlRh. Mae tasgau sy'n

seiliedig ar gwestiynau PISA wedi cael eu cynnwys i godi ymwybyddiaeth o'r math o gwestiynau sy'n cael eu hystyried gan ein dysgwyr. Felly pan gânt eu defnyddio, mae'r ffont a'r fformat yr union yr un fath ag ym mhrofion PISA.

Mae cyfarwyddiadau diffiniedig gan bob tasg, fel y nodir isod.

- **Adnoddau**: y gofynion ar gyfer pob tasg o ran yr adnoddau i'w darparu, y bydd angen eu hargraffu, ac eraill megis copïau o'r FfLlRh a phennau, papur, ac ati.
- **Amseru:** brasamcan yn unig. Fodd bynnag, drwy gydol y tasgau, mae amseru dan reolaeth yn hollbwysig i sicrhau bod cyfranogwyr yn cymryd rhan lawn a bod cyflymder digonol i'r dasg. Felly, yn y rhan fwyaf o dasgau, rhoddir amserau ar gyfer pob adran a dylid dilyn y rhain lle bynnag y bo'n bosibl.
- **Grwpio:** awgrymiadau ynghylch sut y dylai cyfranogwyr gael eu trefnu i gwblhau pob tasg. Mae'r rhain yn amrywio o waith unigol, gweithio mewn pâr, mewn grwpiau o dri i hyd at chwech o bobl. Unwaith eto, mae'r tasgau wedi cael eu cynllunio i gyd-fynd â'r grwpiau hyn er mwyn cynnal cyflymder ac ymgysylltu.

Drwy gydol y tasgau defnyddir y term 'adborth ar hap'. Unwaith eto, y bwriad yw sicrhau bod pob cyfranogwr wedi ymgysylltu, a dylid eu cwblhau i sicrhau bod pob cyfranogwr neu'r rhan fwyaf ohonynt yn cymryd rhan wrth roi adborth.